Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.09.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RHWYDWEITHIO: Sesiwn Hysbysu Dros Frecwast Ysgol Busnes Caerdydd

Bydd cyfres Ysgol Busnes Caerdydd o Sesiynau Hysbysu dros Frecwast ar gyfer yr Hydref yn dechrau ar Ddydd Mawrth, 21 Medi 2021 am 8.30am, pan fydd Derek Walker, Prif Swyddog Gweithredol Canolfan Cydweithredol Cymru, a David Sproxton, Cyd-Sylfaenydd ac Ymddiriedolwr Aardman Animations, yn trafod Perchnogaeth gan Weithwyr. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/38QYI44

# BREXIT: Canllawiau a chyngor

- Estyniad Marc Marchnata CE:
  Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi nwyddau wedi'u marcio â CE i barhau i gael eu rhoi ar y farchnad Brydeinig tan 1 Ionawr 2023. Mae hyn yn golygu bod gan bob sector cynnyrch bellach tan 1 Ionawr 2023 i baratoi i ddefnyddio marc UKCA, ac eithrio dyfeisiau meddygol, am fanylion, ewch i:
  https://bit.ly/3hbxEkV
  Mae'r rhestr gyflawn o'r holl sectorau a gwmpesir gan farcio UKCA i'w gweld yma:
  https://bit.ly/3n8nfdq

- Symud nwyddau drwy Borthladd Caergybi:
  Bydd Porthladd Caergybi yn prosesu gwiriadau Swyddfa Dramwy a CITES, felly bydd angen i chi fynd i Wasanaeth Dros Dro Cyfleuster Mewndirol wrth y Ffin Caergybi wrth symud nwyddau â Charnet ATA, Swyddfa Ymadael neu Swyddfa Pen y Daith. Am fwy o wybodaeth, ewch i:
  https://www.gov.uk/guidance/moving-goods-through-the-port-of-holyhead-with-an-ata-carnet.cy

- Canllawiau i fusnesau:
  Darganfyddwch sut mae rheolau Brexit newydd yn berthnasol i bethau fel mewnforion, allforion, tariffau, darparu gwasanaethau a chyfnewid data â busnesau'r UE, ewch i:
  https://www.gov.uk/guidance/brexit-guidance-for-businesses.cy

- Cymorth i ddinasyddion yr UE hyd at ddiwedd 2021:
  Bydd dinasyddion yr UE yng Nghymru yn parhau i allu cael cymorth cyfrinachol am ddim ar gyfer eu ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE hyd at 31 Rhagfyr 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

> https://llyw.cymru/cymorth-i-ddinasyddion-yr-ue-hyd-ddiwedd-2021

## GWOBRAU: Gwobrau Dewi Sant 2022

Gwobrau Dewi Sant yw gwobrau cenedlaethol Cymru sy'n cydnabod llwyddiannau eithriadol pobl wahanol o Gymru a thu hwnt. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw 21 Hydref 2021. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/gwobrau-dewi-sant/am-y-gwobrau

## LLES: Galwad am arloeswyr i sefyll yn erbyn aflonyddu rhywiol

Bydd Chwarae Teg yn gweithio gyda chyflogwyr i greu polisïau gweithle, mecanweithiau adrodd a phrosesau cymorth y gellir eu cyflwyno ar draws sefydliadau i wneud gweithleoedd yn fwy diogel i bawb ac maen nhw'n recriwtio 20 o gyflogwyr o bob cwr o Gymru i fod yn rhan o'r prosiect arloesol hwn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://chwaraeteg.com/newyddion/mae-angen-arloeswyr-gwrth-aflonyddu-rhywiol/

## YMGYNGHORIAD: Trethi lleol ar ail gartrefi a llety gwyliau

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar newidiadau posibl i drethi lleol i fynd i'r afael â'r effeithiau y gall nifer fawr o ail gartrefi a llety gwyliau masnachol eu cael mewn rhai rhannau o Gymru. I ddarllen y cyhoeddiad, ewch i:

https://llyw.cymru/cyfle-i-ddweud-eich-dweud-am-drethi-lleol-ar-ail-gartrefi-llety-gwyliau

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru